------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Medi 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 20(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ddull gweithredu'r Pwyllgor o ran ei gylch gwaith, a sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru

(30 munud)

## 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6088**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

[Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

[Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

[Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniad i fynd i'r afael â TB buchol drwy ymrwymo i ddefnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol o reoli a dileu TB buchol a sicrhau bod y profion a'r cyfyngiadau symud yn gymesur â statws y clefyd mewn ardal.

**Cefnogwyd gan:**

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Penfro)
Janet Finch-Saunders (Aberconwy)
Andrew RT Davies (Canol De Cymru)
Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor-Meirionnydd)
David Melding (Canol De Cymru)
Russell George (Sir Drefaldwyn)
Nick Ramsay (Mynwy)
Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)

## 5 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6103** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gadw'r fwrsariaeth nyrsio fel rhan o raglen ehangach i gynorthwyo rhagor o bobl o gefndiroedd incwm isel i gael gyrfaoedd yn GIG Cymru.

## 6 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

NDM6104 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei hamddiffyn rhag unrhyw doriadau ariannol dros dymor y Cynulliad hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) sicrhau bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei hamddiffyn rhag unrhyw doriadau ariannol dros dymor y Cynulliad hwn.

(b) sicrhau bod y gwasanaethau ataliol allweddol a ddarperir ochr yn ochr â'r rhaglen Cefnogi Pobl gan y gyllideb atal digartrefedd a'r cyllid pontio ar gyfer tai yn cael eu diogelu rhag unrhyw doriadau ariannol dros dymor y Cynulliad hwn, ac

(c) cydnabod bod y cyllid hwn yn helpu pobl i fyw'n annibynnol, yn achub bywydau, yn arbed arian i'r gwasanaethau statudol ac yn llwyfan ar gyfer ffynonellau ariannu eraill i gael eu defnyddio ar gyfer gwaith ataliol.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

NDM6102 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu nad yw Rhaglen Lywodraethu Prif Weinidog Cymru yn ennyn yr hyder na'r manylion sydd eu hangen i wella cyfleoedd bywyd pobl mewn cymunedau ledled Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu cyflwyno ei Rhaglen Lywodraethu o fewn ei chyllideb.

'Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod Rhaglen yr Wrthblaid Plaid Cymru yn nodi agenda fwy uchelgeisiol a chynhwysfawr i Gymru yn ystod y Pumed Cynulliad.

'Rhaglen yr Wrthblaid'

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6105** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Heriau i'r sector gofal yng Nghymru yn y dyfodol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Hydref 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Medi 2016 i'w hateb ar 28 Medi 2016

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**1.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganllawiau diogelwch ar gyfer teithiau addysg dramor? OAQ(5)0020(EDU)

**2.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ymgynghori ar gynnig y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ynghylch wythnos ysgol anghymesur? OAQ(5)0031(EDU)

**3.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud taliadau i ysgolion yn y sector preifat? OAQ(5)0033(EDU)

**4.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ansawdd prydau ysgol yng Nghymru? OAQ(5)0028(EDU)

**5.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 1 - 3 mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0021(EDU)

**6.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd mae Estyn yn archwilio ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0019(EDU)

**7.** Siân Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ynghylch cynnydd Llywodraeth Cymru ar weithredu argymhellion adroddiad yr Athro Sioned Davies am ddysgu'r Gymraeg? OAQ(5)0023(EDU)**W**

**8.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog nodi beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru o ran ymgorffori hyfforddiant iaith Gymraeg â chymwysterau galwedigaethol? OAQ(5)0024(EDU)

**9.** David Melding (Canol De Cymru): Pa fesurau sydd ar waith i wella presenoldeb mewn ysgolion, yn enwedig o ran disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim? OAQ(5)0025(EDU)

**10.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob ymgais i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig mewn ysgolion? OAQ(5)0027(EDU)

**11.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y deunyddiau dysgu rhithwir newydd a fydd ar gael drwy'r fframwaith cymhwysedd digidol? OAQ(5)0032(EDU)

**12.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i ddatblygu addysg gynradd yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0029(EDU)

**13.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a ddylai pob plentyn gael yr hawl i fynychu ysgol ramadeg? OAQ(5)0030(EDU)

**14.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru ar leoedd sydd dros ben mewn ysgolion? OAQ(5)0022(EDU)

**15.** Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa asesiad o gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud gyda Her Ysgolion Cymru yn etholaeth Ogwr OAQ(5)0026(EDU)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1.** Jeremy Miles (Castell-nedd): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â chymheiriaid yn y DU ynghylch Erthygl 50? OAQ(4)0003(CG)

**2.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru o ran amddiffyn adnoddau morol naturiol? OAQ(5)0004(CG)